# Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd

AIDAC
Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

IEPAW
Interim Environmental Protection Assessor for Wales



# Cynnwys


Rhagair gan yr Asesydd Interim 3

Rhestr o dalfyriadau 4

1 Cyflwyniad 5

2 Cefndir yr AIDAC 7

3 Annibyniaeth 9

3.1 Negeseuon ebost 10
3.2 Y dudalen ar y we 11
3.3 Codi ymwybyddiaeth o’r AIDAC 11
3.4 Systemau rheoli gwybodaeth 13
3.5 Lleoliadau myfyrwyr 14

4 Adnoddau 15

4.1 Ffyrdd o weithio 15
4.2 Adnoddau dynol 17
4.3 Strategaeth gyfathrebu 20

5 Pwerau ac atebolrwydd 21

5.1 Atebolrwydd yr AIDAC 22

6 Beth sydd wedi gweithio’n dda 23

6.1 Ymgysylltu â’r cyhoedd ac â rhanddeiliaid 23
6.2 Cydweithio â chyrff partner ym maes llywodraethiant amgylcheddol 24
6.3 Cydberthnasau â thimau polisi Llywodraeth Cymru 25


7 Casgliad 26

## Rhagair gan yr Asesydd Interim

Cafodd Dr Nerys Llewelyn Jones ei phenodi'n Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ym mis Mawrth 2021. Ymunodd dau Ddirprwy Asesydd â hi ym mis Mai 2024, sef Anna Heslop a fi. Cymerais innau yr awenau oddi wrth Nerys ym mis Mawrth ac ymunodd ein Dirprwy Asesydd newydd â ni, sef John Henderson.

Mae rhan helaeth o'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar brofiad Nerys o fod yn Asesydd Interim, gan mai hi oedd yr unig berson a oedd yn dal swydd ers y cychwyn cyntaf. Arweiniodd y ffaith bod Dirprwyon wedi'u penodi at rai newidiadau i'r ffordd o weithio, ac rydym wedi defnyddio'r profiad hwnnw hefyd lle bo'n briodol.

Mae Nerys, Anna, John a fi'n gobeithio y bydd y gwersi a ddysgwyd gennym ni yn werthfawr i'r sawl sy'n gyfrifol am sefydlu'r corff statudol newydd a fydd yn cymryd ein lle.



## Rhestr o dalfyriadau

| | |
|---|---|
| AIDAC | Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru |
| CE | Comisiwn Ewropeaidd |
| UE | Undeb Ewropeaidd |

## 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio er mwyn ymateb i'r argymhelliad canlynol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ei Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-2024[1]

> *Dylai Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad 'gwersi a ddysgwyd', yn seiliedig ar ei phrofiad o'r trefniadau interim, er mwyn llywio'r broses o drosglwyddo i gorff llywodraethu parhaol. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi ymateb i adroddiad yr Asesydd.*

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg cryno o gefndir yr AIDAC a'i rôl, ac yna'n symud ymlaen i ystyried y gwersi a ddysgwyd gennym wrth geisio cyflawni'r rôl. Mae'r gwersi hynny'n cynnwys sylwadau ynghylch rhwystrau sydd wedi codi ac ynghylch sut yr ydym wedi mynd i'r afael â nhw. Rydym hefyd yn tynnu sylw at yr agweddau hynny ar weithrediad yr AIDAC sydd wedi gweithio'n arbennig o dda.

**Gellir grwpio'r gwersi a ddysgwyd dan sawl pennawd sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd i raddau: Annibyniaeth, Adnoddau a Pwerau ac Atebolrwydd. Ar ôl dod â'r holl wersi hynny ynghyd, hoffem wneud yr argymhellion canlynol:**

**Annibyniaeth**

**Rhaid bod gan y corff newydd ddigon o annibyniaeth o ran ei swyddogaethau a'i weinyddiaeth ei hun i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Nid ydym o'r farn bod hynny'n bosibl os caiff y swyddogaethau hynny eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru.**

1 Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-2024 (Hydref 2024), Llywodraeth Cymru, Argymhelliad 7.

**Adnoddau**

**Rhaid bod y corff newydd yn cael digon o adnoddau i gyflawni ei genhadaeth, a rhaid bod y genhadaeth yn cyd-fynd â'i adnoddau. Ni fydd yn bosibl cyflawni goruchwyliaeth amgylcheddol yn effeithiol ar gyfer amgylchedd Cymru a'r cyhoedd yng Nghymru â bach iawn o arian.**

**Pwerau ac Atebolrwydd**

**Rhaid bod y corff newydd yn cael digon o bwerau i gyflawni ei genhadaeth yn effeithiol. Mae'r pwerau cyfyngedig a ddarparwyd dan y trefniadau interim wedi dangos bod angen pwerau ehangach.**

## 2 Cefndir yr AIDAC

Pan oedd y DU yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE), roedd gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE) bwerau i ddwyn Llywodraeth y DU i gyfrif os ceid honiadau o fethiannau ynghylch y modd y câi cyfraith amgylcheddol ei gweithredu. Roedd y pwerau hynny'n cynnwys y gallu i gyfeirio materion at Lys Cyfiawnder Ewrop er mwyn dwyn achos cyfreithiol posibl yn erbyn y DU. Roedd aelodau'r cyhoedd ym Mhrydain (gan gynnwys cyrff anllywodraethol) yn gallu codi materion gyda'r CE. Mae cyrff statudol i ddarparu system amgen yn lle'r system a gâi ei darparu o'r blaen gan y CE wedi'u sefydlu yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.[2] Cafodd yr AIDAC ei sefydlu er mwyn llanw'r bwlch yn rhannol dros dro rhwng diwedd y cyfnod pan oedd y CE yn goruchwylio cyfraith amgylcheddol a'r adeg pan fyddai mesurau statudol parhaol yn cael eu cyflwyno i Gymru. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd bod yr AIDAC yn gweithredu am gyfnod byr tra byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gorff statudol, parhaol newydd gael ei sefydlu. Penodwyd yr AIDAC am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau, gyda'r opsiwn i adnewyddu'r penodiad am flwyddyn arall. Fodd bynnag, mae'r cyfnod hwnnw wedi'i ymestyn erbyn hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fwlch cyn bod y corff parhaol yn cael ei sefydlu.

> *Nid yw cylch gorchwyl yr AIDAC*[3] *yr un fath â chylch gorchwyl ei sefydliadau partner. Cafodd ei sefydlu'n bennaf i wneud y canlynol:*
>
> *darparu modd i aelodau'r cyhoedd godi materion am weithredu cyfraith amgylcheddol yma yng Nghymru. Bydd yn darparu ymhellach i'r materion hynny gael eu hystyried gan Asesydd Interim, a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru os yw'r materion a godwyd yn ddilys ac yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw gamau y maent yn ystyried sydd angen eu cymryd.*

2 Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Safonau Amgylcheddol yr Alban.

3 Cylch gorchwyl yr AIDAC, 2021, Llywodraeth Cymru

Prif ddiben yr AIDAC yw:

- goruchwylio'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru; ac
- ystyried materion systemig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio neu'n gweithredu yng Nghymru.

Nid yw'r AIDAC yn gorff statudol, felly'r unig beth y gall ei wneud yw cynghori. Nid oes ganddo'r pwerau gorfodi sydd ar gael i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban. Nid yw'n gallu ystyried y canlynol:

- achosion o dorri cyfraith amgylcheddol;
- meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; neu
- faterion a godir ac y mae system neu broses gwyno arall yn ymdrin â nhw.

Nod yr AIDAC yw adnabod ble y gellid bod angen cymryd camau i gywiro problemau gweithredu, a fydd yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Ei amcanion strategol yw:

- darparu gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd, sy'n eu galluogi i anfon cyflwyniadau i'r AIDAC;
- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn ofynnol; a
- chyfrannu at ddatblygu dull parhaol o sicrhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru.

## 3 Annibyniaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu corff statudol annibynnol a pharhaol ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol. Un o swyddogaethau'r corff fydd dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Felly, rhaid ei fod yn rhydd i weithredu heb ymyrraeth gan y Llywodraeth. Nid yw hynny'n wir am yr AIDAC, oherwydd nid oes ganddo bwerau swyddogol i ymchwilio a gorfodi.

Fodd bynnag, er mai Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am bennu nodau ac amcanion strategol yr AIDAC, ni chafwyd unrhyw gyfarwyddyd ynghylch sut y dylai rôl yr Asesydd Interim gael ei chyflawni. Ers i'r rôl gael ei sefydlu, mae'r AIDAC wedi gweithredu ar sail y ddealltwriaeth ei fod yn rhydd i roi cyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru, ac ni chaiff yr Asesydd Interim na'r Dirprwyon eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru.

Yn anffodus, nid yw annibyniaeth ein cyngor yn golygu ein bod wedi gallu rhedeg y sefydliad yn annibynnol. Caiff cymorth ar ffurf Ysgrifenyddiaeth ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Er bod y ddau aelod llawn-amser o'r Ysgrifenyddiaeth yn cynorthwyo'r AIDAC yn unig, cânt eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru a chaiff eu harferion gweithio eu rheoli gan Lywodraeth Cymru. Mae'r angen iddynt gydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, ynghyd â'n sefyllfa ni fel cynghorwyr annibynnol, wedi creu nifer o broblemau sydd wedi effeithio ar allu'r AIDAC i gynllunio ei waith a'i gyflawni yn effeithlon. Ymhlith y rheiny y mae problemau gyda'r canlynol:

- cyfeiriadau ebost
- y dudalen ar y we
- cyfryngau cymdeithasol
- systemau rheoli gwybodaeth
- lleoliadau myfyrwyr.

### 3.1 Negeseuon ebost

Caiff gohebiaeth i sylw'r Asesydd Interim ei hanfon i'r cyfrif ebost IEPAW@gov.wales. Caiff y cyfrif hwn ei fonitro'n ddyddiol gan Ysgrifenyddiaeth yr AIDAC. Mae'r Ysgrifenyddiaeth hefyd yn defnyddio'r cyfrif hwn i friffio a chynorthwyo'r Asesydd Interim a'r Dirprwyon ac i anfon negeseuon at randdeiliaid a chyflwynwyr, sy'n cynnwys ymatebion i'w hymholiadau a newyddion am unrhyw ddigwyddiadau sydd ar ddod.

Caiff y negeseuon ebost hyn eu hanfon o gyfrif yr AIDAC a'u cadw yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, sydd hefyd yn caniatáu i holl staff yr Ysgrifenyddiaeth weld gwybodaeth hanesyddol at ddibenion sicrhau parhad ac archwilio.

Gan nad yw'r Asesydd Interim a'r Dirprwyon yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru, nid oes ganddynt gyfeiriadau ebost gov.wales. Gwnaed llawer iawn o ymdrech i gael cyfeiriadau ebost pwrpasol, ond yn ofer hyd yma, a hynny oherwydd y cymhlethdodau sy'n codi o natur ddyrys y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, yr Aseswyr Interim a'r Ysgrifenyddiaeth. Felly, mae'r Asesydd Interim a'r Dirprwyon wedi gorfod defnyddio eu cyfeiriadau ebost personol. Mae hynny'n cyfyngu ar eu mynediad i rai adnoddau electronig sy'n cynnwys cyfrif ebost yr AIDAC.

Nid yw hynny'n ddelfrydol o bell ffordd, a gofynnwyd am ateb i'r broblem ers i'r AIDAC gael ei sefydlu. Gall fod yn risg bosibl i ddiogelwch, a gall arafu gohebiaeth drwy ebost. Mae hefyd yn golygu weithiau nad yw negeseuon ebost yn cyrraedd.

Yn ogystal, mae'n effeithio ar ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, gan nad yw'r holl negeseuon ebost yn cael eu storio ar weinyddion Llywodraeth Cymru. At hynny, os ceir ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ymdrinnir â nhw drwy weithdrefnau mewnol Llywodraeth Cymru ac nid oes gan yr AIDAC unrhyw reolaeth ar yr ymatebion.

### 3.2 Y dudalen ar y we

Nid oes gan yr AIDAC ei wefan ei hun. Os bydd darllenydd yn chwilio ar y rhyngrwyd am yr AIDAC, caiff ei gyfeirio at dudalen ar y we ar gyfer yr AIDAC, a gaiff ei lletya gan Lywodraeth Cymru.[4] Mae'r dudalen honno'n rhoi esboniad cryno o rôl yr AIDAC ac yn darparu dolen gyswllt â'i gylch gorchwyl ac â ffurflen gyflwyno ar gyfer y sawl sy'n dymuno sôn wrthym am fater.
Ceir adrannau hefyd ynghylch cyhoeddiadau a hysbysiadau. Yr unig ffordd o ddod o hyd i rai dogfennau pwysig, gan gynnwys yr egwyddorion blaenoriaethu, yw drwy ddilyn y ddolen gyswllt ar gyfer gweld yr holl eitemau diweddaraf. Nid yw statws yr AIDAC fel corff cynghori sy'n gweithredu yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru yn glir, a byddai'n hawdd i'r darllenydd ddod i'r casgliad bod yr AIDAC yn un o gyrff Llywodraeth Cymru.

Nid oes gennym unrhyw reolaeth ar fformat y dudalen ar y we. Er y gallwn gyflwyno deunydd i'w ychwanegu ati, ni allwn ychwanegu'r deunydd ein hunain. At hynny, rydym wedi gweld ei bod yn debygol y bydd y deunydd a gyflwynir gennym yn cael ei ailfformatio er mwyn bodloni arddull tŷ Llywodraeth Cymru. Pan gafodd ein llythyr newyddion ar gyfer hydref 2024 ei lanlwytho, roedd gwaith celf a holl ffotograffau'r AIDAC wedi cael eu hepgor a dim ond y testun oedd ar ôl. Rydym yn credu y byddai cael gwefan bwrpasol wedi cyfrannu at godi ein proffil ymhlith aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.

### 3.3 Codi ymwybyddiaeth o'r AIDAC

Mae rhoi cyhoeddusrwydd i fodolaeth yr AIDAC a'i rôl wedi bod yn her, o fewn Llywodraeth Cymru ac yn allanol. Er bod gennym berthynas ardderchog, fel y nodir isod, â thîm polisi Llywodraeth

4 https://www.llyw.cymru/asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru

Cymru sy'n gweithio ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), nid yw holl adrannau Llywodraeth Cymru yn deall ein rôl yn iawn.

Yn allanol, mae aelodau'r cyhoedd wedi gorfod mynd ati eu hunain i chwilio am wybodaeth am fodolaeth yr AIDAC a'r gwasanaethau a gynigir. Ar ôl penodi dau Ddirprwy ym mis Mai 2024 a chael yr adnoddau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â hynny, cytunwyd bod angen i ni ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu effeithiol. Nid oes gan yr AIDAC yr adnoddau i wneud hynny heb gymorth allanol. Fodd bynnag, mae ein dibyniaeth ar weinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn golygu na fu'n hawdd cael gafael ar y cymorth hwnnw. Rydym wedi gorfod dilyn gofynion caffael Llywodraeth Cymru. Er bod y gweithdrefnau hynny'n sicrhau tryloywder, atebolrwydd a gwerth am arian, maent hefyd wedi ein rhwystro rhag mynd i'r afael â'r broblem hon yn sydyn. Mae gorfod dibynnu ar gyflenwyr cymeradwy a dilyn y prosesau mewnol wedi cyfyngu ar yr ystod o gyflenwyr posibl y gellir cysylltu â nhw ac wedi ychwanegu at y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â threfnu cynigion. Mae'r ystod gyfyngedig o gyflenwyr posibl yn golygu bod diddordeb annigonol wedi'i fynegi i alluogi'r AIDAC i gael gwasanaethau priodol. O gofio'r adnoddau sydd ar gael i'r AIDAC, mae'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â threfnu cynigion wedi bod yn broblemus oherwydd bod y gwaith wedi cymryd llawer o amser y staff.

Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyhoeddi gwybodaeth am sefydliad yn arfer cyffredin erbyn hyn. Mae wedi bod yn anodd i'r AIDAC wneud hynny, yn rhannol oherwydd diffyg adnoddau (a drafodir isod) ond hefyd oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaethom benderfynu mai LinkedIn fyddai'r sianel fwyaf priodol i'r AIDAC ar gyfryngau cymdeithasol, ond ni allem greu cyfrif heb gael caniatâd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru. Arweiniodd hynny at sawl mis o oedi.

### 3.4 Systemau rheoli gwybodaeth

Pan gafodd yr AIDAC ei sefydlu, nid oedd disgwyl iddo weithredu am gyfnod hir ac ni chafodd unrhyw system rheoli gwybodaeth ei rhoi ar waith. Nid oedd hynny'n broblem tra oedd swm y deunydd yn fach. Fodd bynnag, wrth i'r Ysgrifenyddiaeth a swm y deunydd gynyddu, trodd rheoli gwybodaeth yn fater difrifol.

Cytunwyd y dylid sefydlu seilwaith gwybodaeth ar gyfer yr AIDAC. Roedd y ffaith nad oedd yr Asesydd Interim, a'r Dirprwyon maes o law, yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru ac nad oedd ganddynt fynediad i systemau Llywodraeth Cymru yn golygu bod yn rhaid gwneud trefniadau hyd braich.

Yr ateb a gafwyd oedd trefnu gwybodaeth yr AIDAC ar draws sawl platfform, gyda Llywodraeth Cymru yn lletya'r prif adnoddau digidol a'r Aseswyr Interim yn gweithio o bell heb fynediad diogel i'r adnoddau hynny.

Cafodd y system rheoli gwybodaeth Objective Connect ei gosod, ac mae'n cael ei defnyddio fel adnodd diogel ar gyfer rhannu gwybodaeth ochr yn ochr â rhwydwaith Llywodraeth Cymru. Mewn theori, mae Objective Connect yn galluogi'r Asesydd Interim a'r Dirprwyon i gael mynediad i wybodaeth yn sydyn ac yn hawdd. Mae modd i waith gael ei rannu mewn modd cydweithredol ar draws y platfform hwn yn ddiogel, sy'n sicrhau bod yr AIDAC yn cydymffurfio â gofynion diogelu data. Fodd bynnag, mae'r cymhlethdod sy'n ymwneud â gweithredu Objective Connect ochr yn ochr â system y Llywodraeth yn gofyn llawer gan yr Ysgrifenyddiaeth. Mae'r system wedi gweithio'n dda ar y cyfan, ond cafwyd adegau pan nad oedd yr Aseswyr yn gallu dod o hyd i wybodaeth neu agor ffeiliau. Rydym wedi gorfod gofyn yn aml am arbenigedd yr Ysgrifenyddiaeth i'n helpu i ddod o hyd i'n ffordd o fewn y system. Cafwyd adegau pan gafodd analluedd i gael mynediad i wybodaeth effaith andwyol ar ein heffeithlonrwydd.

### 3.5 Lleoliadau myfyrwyr

Mae'r AIDAC wedi elwa o gynllun lleoliadau myfyrwyr Llywodraeth Cymru. Rydym yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y cynllun hwn. Caiff y broses recriwtio ei chynnal gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r rhan y mae'r AIDAC yn ei chwarae yn y broses wedi'i chyfyngu i gyfweld ymgeiswyr y mae o'r farn y gallent fod yn addas, o restr a anfonir i'r AIDAC. Am amryw resymau sydd y tu hwnt i reolaeth yr AIDAC, gall oedi ddigwydd wrth recriwtio myfyrwyr. Gall hynny ei gwneud yn anodd i ni gynllunio sut y byddwn yn defnyddio arbenigedd myfyriwr, ac mae'n golygu na allwn ddibynnu ar gael cymorth y myfyriwr pan fydd arnom ei angen. Gall effeithio hefyd ar y broses o gynllunio cyllidebau. Rydym yn deall y gall oedi fod yn anochel weithiau; y brif broblem i ni yw'r ansicrwydd y mae hynny'n ei achosi.

**Mae dibyniaeth ar systemau gweinyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfathrebu electronig a rheoli gwybodaeth wedi cyfyngu ar sut y mae'r AIDAC wedi gallu gweithredu. Rydym o'r farn y byddem yn fwy effeithlon pe baem yn hollol gyfrifol am ein systemau ein hunain a phe bai gennym reolaeth lwyr arnynt.**

**Mae dibyniaeth ar drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer caffael wedi cyfyngu ar ein gallu i recriwtio cymorth gan drydydd partïon.**

# 4 Adnoddau

Mae gweithgareddau'r AIDAC wedi'u cyfyngu gan adnoddau cyfyngedig o safbwynt pobl a chyllid, yn enwedig yng nghyswllt cyfathrebu.

## 4.1 Ffyrdd o weithio

Mae'r AIDAC yn ddolen gyswllt rhwng aelodau'r cyhoedd a Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu. Er bod dyletswydd arno i gynghori Llywodraeth Cymru, ceir ffocws cryf ar ymwneud yr AIDAC â'r cyhoedd, sy'n cynnwys annog pobl i gyflwyno eu pryderon ac yn cynnwys ymgysylltu ag eraill er mwyn casglu gwybodaeth i lywio cyngor yr AIDAC.

Pan gafodd yr AIDAC ei sefydlu, byddai cyflwyniadau'n cael eu hanfon drwy ebost yn uniongyrchol i gyfrif ebost yr AIDAC. Byddai hynny'n arwain at sgyrsiau hir drwy ebost er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol i werthuso cyflwyniadau. At hynny, barnwyd bod nifer sylweddol o'r cyflwyniadau cynnar y tu allan i gwmpas yr AIDAC. Daethpwyd i'r casgliad bod yna ddiffyg eglurder ynghylch y wybodaeth a oedd yn ofynnol ac ynghylch cwmpas rôl yr AIDAC.

Er mwyn mynd i'r afael â hynny, cafodd ffurflen gyflwyno ei datblygu. Roedd yn egluro'r mathau o faterion y gellid eu cyflwyno. Roedd hefyd yn darparu fframwaith clir i gyflwynwyr er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu pan fyddent yn cysylltu â'r AIDAC am y tro cyntaf. Mae'r AIDAC hefyd wedi cyhoeddi egwyddorion blaenoriaethu sy'n esbonio sut y mae'n penderfynu pa gyflwyniadau ddylai gael blaenoriaeth.[5]

5 https://www.llyw.cymru/egwyddorion-blaenoriaethu-asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru-iepaw

**Mae rhoi gwybodaeth glir i aelodau'r cyhoedd ynghylch y mathau o faterion y gall (ac na all) yr AIDAC eu hystyried ac ynghylch sut y gallant gyflwyno pryder i ni wedi gwella ansawdd y cyflwyniadau a gawsom ac wedi symleiddio'r broses o benderfynu sut y dylem roi sylw iddynt.**

Er bod defnyddio'r ffurflen gyflwyno wedi'i gwneud yn haws prosesu cyflwyniadau, nid yw wedi datrys yr holl broblemau. Mae mwyafrif y cyflwyniadau a gawn wedi'u hanfon gan bobl nad ydynt yn gwybod fawr ddim am sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio'n ymarferol. Sylweddolodd yr AIDAC yn fuan ei bod yn hanfodol gweithio gyda phobl er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'u pryderon o safbwynt cyfreithiol.

**Mae tîm yr AIDAC wedi gorfod neilltuo amser i feithrin dealltwriaeth o'r materion cyfreithiol sy'n sail i bryderon a fynegir gan y bobl sy'n anfon cyflwyniadau, ac ni all y tîm ddibynnu ar y bobl hynny i ddarparu achos clir dros ymchwilio.**

Er y gall yr AIDAC ymchwilio i unrhyw agwedd ar y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, mae ei waith wedi'i lywio gan y cyflwyniadau y mae wedi'u cael. Mae ei holl ymchwiliadau o bwys wedi cael eu hysgogi gan yr angen i ymateb i gyflwyniadau.

Os yw'r AIDAC o'r farn bod angen cael ystod eang o safbwyntiau ar agwedd benodol ar gyfraith amgylcheddol, gall benderfynu cyhoeddi Galwad am Dystiolaeth. Fel rheol, mae'r dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion wedi'i gyflawni gan sefydliadau trydydd parti a gomisiynwyd gan yr AIDAC, sef sefydliadau academaidd fel rheol. Yr Aseswyr sy'n drafftio argymhellion ac yn llunio'r adroddiad terfynol.

Mae ymgysylltu â chyrff amgylcheddol cyhoeddus ac anllywodraethol eraill yng Nghymru wedi bod yn un o weithgareddau craidd yr AIDAC o'r cychwyn cyntaf. Ein prif ddull o ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hynny yw drwy ein cyfarfodydd ar-lein bob chwarter i randdeiliaid. Mae'r AIDAC a'r rhanddeiliaid o'r farn bod y cyfarfodydd hyn yn ffordd dda o ymgysylltu. Rydym hefyd wedi cynnal

digwyddiadau wyneb yn wyneb mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys yn y Sioe Frenhinol.

Mae'r AIDAC hefyd yn cynhyrchu llythyr newyddion sawl gwaith y flwyddyn, sydd ar gael drwy dudalen Llywodraeth Cymru ar y we ar gyfer yr AIDAC. At hynny, caiff y llythyr newyddion ei anfon yn uniongyrchol at y sawl sydd ar restr bostio'r AIDAC ar gyfer rhanddeiliaid, a chaiff ei gyhoeddi ar LinkedIn.

## 4.2 Adnoddau dynol

Cafodd yr AIDAC ei greu ag adnoddau cyfyngedig. Tan fis Mai 2024, roedd yna un Asesydd Interim a oedd yn gweithio isafswm o 20 diwrnod y flwyddyn. Cafodd Dr Nerys Llewelyn Jones, a fu'n dal y swydd tan ddiwedd mis Chwefror 2025, ei phenodi i ddechrau am ddwy flynedd. Disgwylid mai am gyfnod byr y byddai angen yr AIDAC, nes y byddai corff parhaol yn cael ei greu ac y byddai'r rôl yn cael adnoddau priodol. Disgwylir yn awr y bydd yr AIDAC yn bodoli am gyfnod digon hir i sicrhau proses bontio effeithlon i'r corff newydd. Mae penodi dau Ddirprwy Asesydd ym mis Mai 2024, gyda phob un ohonynt yn gweithio o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos, wedi cynyddu capasiti'r AIDAC ond mae rôl yr AIDAC yn dal yn gyfwerth â rôl sy'n llai na swydd lawn-amser.

Mae'r cymorth ysgrifenyddol a ddarperir wedi newid dros y blynyddoedd. Ar hyn o bryd, mae gan yr Ysgrifenyddiaeth ddau aelod llawn-amser o staff ac mae un o weithwyr eraill Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth rhan-amser ychwanegol. Maent yn treulio llawer o'u hamser yn trefnu cyfarfodydd, yn gohebu â'r sawl sy'n anfon cyflwyniadau i'r AIDAC ac yn trafod â swyddogion Llywodraeth Cymru, sy'n golygu mai bach iawn o amser sy'n weddill i ymchwilio ac i ddrafftio adroddiadau. Un o gyfyngiadau penodol y strwythur presennol yw'r diffyg arbenigedd cyfreithiol neu'r diffyg gwybodaeth amgylcheddol ac ecolegol priodol ymhlith staff yr Ysgrifenyddiaeth. Yn ddelfrydol, dylai'r Ysgrifenyddiaeth fod yn gyfrifol am adolygu cyflwyniadau a chynghori'r Aseswyr

ynghylch a ydynt yn perthyn i gwmpas yr AIDAC ac, os felly, beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godir. Yn ymarferol, yr Aseswyr sy'n gorfod gwneud llawer o'r gwaith hwnnw, sy'n cymryd amser a fyddai fel arall yn cael ei dreulio'n mynd i'r afael ag ymchwiliadau ac yn ysgrifennu adroddiadau.

Mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi sefydlu Coleg Arbenigwyr, sy'n cynnwys unigolion a chanddynt wybodaeth am gyfraith amgylcheddol a gwyddoniaeth, i roi cyngor iddi. Nid yw'r AIDAC yn gallu gofyn am gymorth gan y Coleg Arbenigwyr, ac nid oes ganddo'r adnoddau i sefydlu corff tebyg. Fodd bynnag, mae'r AIDAC wedi gallu manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd cyrff allanol megis Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'w alluogi i werthuso cyflwyniadau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi gallu darparu gwybodaeth ychwanegol, o gael cais amdani.

Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf yr AIDAC yn cynnwys adrannau sy'n cyfeirio at fonitro effaith a chraffu'n fewnol ar berfformiad. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd darparu'r wybodaeth ychwanegol honno, mae datblygu dull syml ond addysgiadol o ddangos effaith, a rhoi prawf ar y dull hwnnw, wedi cymryd amser a allai fod wedi'i neilltuo fel arall i baratoi cyngor am bynciau penodol.

Mae diffyg adnoddau wedi arwain at oedi o ran llunio adroddiadau. Cyhoeddodd yr AIDAC ei adroddiad cyntaf, ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), ym mis Chwefror 2023. Dechreuwyd ar ddau ymchwiliad arall yn 2021 ac ar un ymchwiliad yn 2022. Roeddem yn siomedig na fu modd i ni fodloni disgwyliadau o ran adrodd ynghylch yr ymchwiliadau hynny. Mae dau adroddiad (ar goed a choetiroedd ac ar safleoedd gwarchodedig) heb eu cwblhau o hyd. Mae cymorth gan leoliadau myfyrwyr a chan gontractau allanol â phrifysgolion wedi gwneud cyfraniadau hanfodol drwy gasglu tystiolaeth a chyflawni ymchwil gyfreithiol ychwanegol, ond mae'r amser sy'n ofynnol i grynhoi'r cyfan a llunio argymhellion yn fwy na'r amser a gaiff ei neilltuo i'r Aseswyr. Roedd y sefyllfa'n arbennig o anodd pan oedd gan y tîm un Asesydd yn unig. Hyd yn

oed gyda dau Asesydd arall mae cynnydd wedi bod yn araf. Mae'r arafwch yn golygu ein bod byth a hefyd yn gorfod diweddaru copïau drafft er mwyn ystyried datblygiadau diweddar. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni roi sylw i faterion a godir mewn cyflwyniadau newydd.

Y broblem sylfaenol yw diffyg capasiti. Nid oedd yn bosibl o gwbl i un Asesydd a oedd yn gweithio o leiaf 20 diwrnod y flwyddyn ymdrin â'r holl gyflwyniadau'n brydlon, a hyd yn oed ar ôl penodi dau Ddirprwy sy'n gweithio dau ddiwrnod yr un yr wythnos, dim ond tua un swydd gyfwerth ag amser llawn sydd ar gael i ymdrin â bron 40 o gyflwyniadau, ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid a rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru. Caiff y broblem ei gwaethygu gan ffactorau eraill sy'n cynnwys:

- diffyg cymorth cyfreithiol yn yr Ysgrifenyddiaeth
- oedi wrth recriwtio myfyrwyr ar gyfer interniaethau
- yr amser a dreulir ar oruchwylio gweithgareddau gweinyddol, sy'n cynnwys datblygu strategaeth gyfathrebu
- cyfnodau o salwch, yn enwedig Covid.

**Gallai'r amser y mae'n ei gymryd i ni lunio ein hadroddiadau olygu eu bod yn cael llai o effaith. Mae hefyd wedi golygu bod y dasg o ysgrifennu'r adroddiadau yn fwy cymhleth oherwydd bod angen ystyried datblygiadau newydd wrth iddynt godi.**

Mae diffyg adnoddau wedi effeithio ar ein gwaith mewn ffyrdd eraill hefyd. Fel y nodwyd uchod, ein prif ddull o ymgysylltu â rhanddeiliaid yw drwy ein cyfarfodydd ar-lein bob chwarter i randdeiliaid. Mae trefnu'r rhain yn waith eithaf hawdd ond nid oes gennym yr adnoddau i ddarparu cymorth ar gyfer unigolion sydd â nam ar eu golwg neu'u clyw. Nid oes gennym yr adnoddau i ddarparu ar gyfer pobl ag anawsterau symud yn y digwyddiadau awyr agored a gynhaliwyd gennym mewn gwarchodfeydd natur, mewn gweithfeydd trin carthion ac ar dir ffermio. Er i ni geisio sicrhau bod digwyddiadau wyneb yn wyneb mor hygyrch ag sy'n bosibl, rydym wedi gorfod bod yn bragmatig. Mewn rhai achosion, ni fu modd goresgyn heriau o ran mynediad, a oedd y tu hwnt i reolaeth yr AIDAC.

Nid ydym bob amser wedi gallu cyhoeddi'r llythyr newyddion mor rheolaidd ag y byddem wedi hoffi. Mae bodloni amserlenni cyhoeddi wedi bod yn anodd yn aml. Mae'r angen am gymeradwyaeth yr Asesydd Interim cyn y gellir trefnu bod y llythyr newyddion yn cael ei gyfieithu a'i fformatio wedi'i rwystro gan yr amser sydd wedi'i bennu ar gyfer y rôl. Mae materion â blaenoriaeth uwch wedi cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer y broses honno. O ganlyniad, bu'n rhaid gohirio amserlenni cyhoeddi a rhoi'r cynnwys dan sylw yn y llythyr newyddion nesaf.

## 4.3 Strategaeth gyfathrebu

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol er mwyn i'r AIDAC allu cyflawni ei ddiben, sef "darparu modd i aelodau'r cyhoedd godi materion am weithredu cyfraith amgylcheddol".

Mae'r AIDAC wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth gyfredol am ei weithgareddau. Tan yn ddiweddar, fodd bynnag, nid yw wedi gallu mabwysiadu dull strategol o gyfathrebu. I raddau helaeth, mae ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi digwydd yn ad hoc, ac wedi'i fireinio drwy ddysgu beth sy'n gweithio orau. Erbyn hyn, rydym yn defnyddio dull mwy strategol o gyfathrebu. Nid oes gennym ddigon o adnoddau ac nid oes gennym yr arbenigedd angenrheidiol i wneud hynny heb gymorth, ac rydym wedi defnyddio cyrff allanol i'n cynorthwyo. Mae rheoli'r contractau hynny, a oedd yn cynnwys gwneud sylwadau ar y deunydd a ddarparwyd, wedi cymryd llawer o amser ysgrifenyddol. Mae un o'r Dirprwyon wedi ymgymryd â'r rôl o oruchwylio cyfathrebu. Rydym yn falch bod gan yr AIDAC bresenoldeb ar LinkedIn yn awr, ond hoffem nodi y bydd rheoli'r presenoldeb hwnnw'n golygu treulio llai o amser yn paratoi adroddiadau.

**Roedd angen datblygu strategaeth gyfathrebu ers amser. O gael digon o adnoddau a chael mwy o reolaeth ar sut y caiff yr adnoddau hynny eu defnyddio, rydym yn credu y byddai proffil yr AIDAC yn cael ei godi.**

## 5 Pwerau ac atebolrwydd

Yr unig beth y gall yr AIDAC ei wneud yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru. Yn wahanol i'w sefydliadau partner, ni all gymryd camau gorfodi os yw o'r farn bod corff cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

Nid cred bod dwyn y Llywodraeth ac eraill i gyfrif yn ddibwys yw'r rheswm dros gyfyngu ar ein pwerau. Roedd dymuniad Llywodraeth Cymru i sefydlu system mor gyflym ag sy'n bosibl i alluogi aelodau'r cyhoedd i dynnu sylw at bryderon am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yn golygu bod yn rhaid i hynny gael ei wneud heb unrhyw gefnogaeth statudol.

Fel mesur byrdymor, gwnaeth y trefniadau hynny o leiaf sicrhau bod rhyw fath o system ar gael yng Nghymru i alluogi aelodau'r cyhoedd i leisio eu pryderon, ond mae'n hollol amhosibl iddi fod yn system amgen ddigonol yn lle'r pwerau a oedd ar gael cyn Brexit.

At ei gilydd nid yw statws anstatudol yr AIDAC wedi effeithio ar ein perthynas â chyrff eraill, ond nid yw hynny wedi bod yn wir bob amser. Yn wreiddiol, er enghraifft, ni chawsom berthyn i fforwm ar gyfer y DU gyfan ynghylch tir halogedig, a hynny oherwydd nad oeddem yn cael ein hystyried yn gorff a oedd yn cyfateb i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban.

Rydym yn disgwyl y bydd y mater hwn yn cael sylw yn y ddeddfwriaeth i greu'r corff llywodraethiant statudol. Mae'r AIDAC bob amser wedi cydnabod ei gyfyngiadau i'r perwyl hwn. Rydym yn credu bod ein rhanddeiliaid yn deall hynny.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu am ein diffyg pŵer i wneud llawer o'r pethau yr hoffem eu gwneud. Ar y cyfan, mae ein pryder yn ymwneud â'n statws lled-annibynnol sy'n golygu ein bod yn rhydd i roi cyngor fel y mynnwn ond sy'n gosod amodau a chyfyngiadau, nad oes modd eu

goresgyn, ar y modd yr ydym yn gweithredu.

## 5.1 Atebolrwydd yr AIDAC

Dan ei gylch gorchwyl, mae'n ofynnol i'r AIDAC ddarparu Adroddiad Blynyddol ynghylch y cynnydd y mae'n ei wneud. Hyd yma, mae tri adroddiad o'r fath wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Mae'r broses o lunio'r adroddiadau hynny wedi newid dros y blynyddoedd. Caiff gwybodaeth ei chasglu drwy gydol y flwyddyn fel bod y gwaith terfynol o lunio'r Adroddiad yn eithaf syml. Mae'r Pwyllgor a Llywodraeth Cymru yn craffu ar yr adroddiadau hyn sy'n llywio trafodaethau pan fydd yr Asesydd Interim a'r Dirprwyon yn ymddangos gerbron y Pwyllgor. Mae'r gofyniad yn adlewyrchu'r angen i ddarparu tryloywder ac atebolrwydd ynghylch gweithgareddau'r AIDAC. Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor, mae'r adroddiad diweddaraf yn cynnwys adrannau sy'n nodi gweithgarwch monitro effaith a chraffu'n fewnol ar berfformiad.

**Mae'r gwaith o lunio'r Adroddiad Blynyddol wedi'i symleiddio'n fawr iawn wrth i wybodaeth gael ei chrynhoi drwy gydol y flwyddyn, a byddem yn argymell bod dull tebyg o weithredu'n cael ei fabwysiadu.**

# 6 Beth sydd wedi gweithio’n dda

## 6.1 Ymgysylltu â’r cyhoedd ac â rhanddeiliaid

Un o amcanion strategol yr AIDAC yw darparu gwasanaeth i aelodau’r cyhoedd, sy’n eu galluogi i anfon eu cyflwyniadau. Ystyriwyd bod pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ac aelodau’r cyhoedd yn ehangach yn rhan hanfodol o rôl yr AIDAC o’r cychwyn cyntaf, ac rydym wedi gweithio’n galed i ddarparu ffyrdd effeithiol o allu gwneud hynny. Ymhlith ein rhanddeiliaid y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy’n cynnwys, er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol; cyrff preifat sy’n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, megis Dŵr Cymru; ac ystod o gyrff anllywodraethol sydd â buddiannau yn yr amgylchedd a/neu mewn ffermio. At hynny, rydym yn falch o fod wedi cael cyflwyniadau gan aelodau’r cyhoedd nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig ag unrhyw un o’r cyrff hynny.

Mae ein holl ddigwyddiadau i randdeiliaid yn cynnwys cyfle i ofyn cwestiynau neu godi materion yn uniongyrchol gyda’r Asesydd Interim a’r Dirprwyon. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y materion y gellir eu codi yn y fforymau hyn, ar wahân i’r gofyniad bod yn rhaid eu bod yn ymwneud â’r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu.

Mae gwahoddiadau ar gyfer digwyddiadau i randdeiliaid ar gael i bawb, felly gall unrhyw aelod o’r cyhoedd ddod i’r cyfleuster hwn. Yr unig gyfyngiadau ar fynediad yw capasiti lleoliadau ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb, neu’r angen i ofyn am wahoddiad Teams ar gyfer digwyddiadau ar-lein. Mae hynny’n sicrhau mynediad cyfartal i bob digwyddiad a drefnir gan yr AIDAC, ac mae’n galluogi cyfranogwyr i godi materion gyda ni’n uniongyrchol.

**Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn amhrisiadwy i waith yr AIDAC. Mae wedi ein galluogi i fod yn ymwybodol bob amser o bryderon cyfredol am faterion amgylcheddol,**

**ac wedi ein galluogi i ddarparu gwybodaeth am ein gweithgareddau. Rydym yn defnyddio cymysgedd o ddulliau gweithredu sy'n cynnwys digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb a llythyr newyddion rheolaidd.**

## 6.2 Cydweithio â chyrff partner ym maes llywodraethiant amgylcheddol

Mae gan yr AIDAC berthynas ardderchog â'i gyrff partner ym maes llywodraethiant amgylcheddol. Rydym yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein rheolaidd er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'n gilydd am feysydd gwaith penodol, ac rydym yn cwrdd wyneb yn wyneb bob blwyddyn â'u staff uwch ac ag aelodau eu byrddau. Mae'r AIDAC yn ymwneud â gwaith a wneir ar y cyd â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar faterion trawsffiniol, sy'n cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac ansawdd dŵr mewn afonydd, ac mae wedi elwa o rannu gwybodaeth gyfreithiol a gwyddonol y byddai'r AIDAC efallai wedi'i chael yn anodd cael gafael arni. Mewn rhai achosion, mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a/neu Safonau Amgylcheddol yr Alban wedi cyhoeddi adroddiadau ynghylch materion perthnasol, sydd wedi bod yn sylfaen ardderchog ar gyfer ein hymchwiliadau ac sydd wedi golygu nad oedd yn rhaid i ni gomisiynu adroddiadau'n annibynnol. Mae trafodaethau am debygrwydd a gwahaniaethau rhwng dulliau gweithredu yng Nghymru a Lloegr hefyd wedi bod yn fodd i dynnu sylw at gryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau gweithredu.

**Mae'r modd y mae'r AIDAC wedi cydweithio â'i gyrff partner ym maes llywodraethiant amgylcheddol wedi bod yn amhrisiadwy i waith yr AIDAC.**

## 6.3 Cydberthnasau â thimau polisi Llywodraeth Cymru

Mae gennym berthynas waith ardderchog â thimau polisi Llywodraeth Cymru. Mae’r ddealltwriaeth fanwl o weithgarwch sy’n mynd rhagddo ar draws Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ymwybyddiaeth o’r opsiynau a gaiff eu hystyried er mwyn datblygu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, wedi bod yn amhrisiadwy wrth i’r AIDAC esblygu. Mae timau wedi gallu darparu cyd-destun hanesyddol manwl ac wedi gallu cyfeirio at waith perthnasol ar draws Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae hynny wedi’i gwneud yn bosibl i’r AIDAC symud gweithgarwch yn ei flaen yn hyderus, gan osgoi peryglon a gwaith dyblygu. Rydym wedi gallu manteisio ar waith sy’n cael ei ddatblygu mewn mannau eraill yn lle neilltuo ein hadnoddau prin ein hunain iddo. Yn ogystal, mae timau wedi gallu darparu safbwynt beirniadol ar ddulliau’r AIDAC o feddwl, gan wella ansawdd gwaith a phriodoldeb argymhellion i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw ymgais i ddylanwadu’n amhriodol ar yr AIDAC. Mae’r ddwy ochr wedi bod yn ymwybodol o’r angen i reoli’r berthynas yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw hynny’n digwydd.

**Mae cael perthynas waith dda â thimau polisi Llywodraeth Cymru wedi ein galluogi i fod yn ymwybodol o’r datblygiadau diweddaraf ym maes polisi amgylcheddol sy’n newid yn gyflym.**

# 7 Casgliad

Ers i'r AIDAC gael ei sefydlu yn 2021, mae wedi bod yn craffu ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac wedi bod yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru. Mae hefyd wedi darparu system i aelodau'r cyhoedd godi materion am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae'r AIDAC wedi llenwi bwlch am gyfnod cyfyngedig ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru, ond yn y bôn mae'n wahanol i gyrff llywodraethiant amgylcheddol yng ngweddill y DU ac yn wahanol i'r corff parhaol a grëir dan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) sydd ar ddod.

Gan mai dim ond tri ohonom sy'n gweithio fel Aseswyr Interim, rydym yn ymwneud â phob agwedd ar waith yr AIDAC ac rydym, felly, wedi gallu manteisio ar ein profiad ar y cyd er mwyn amlinellu rhai gwersi allweddol a ddysgwyd. Rydym yn sylweddoli na fwriedir i'r amgylchiadau y mae'r Aseswyr Interim wedi bod yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys yr adnoddau cyfyngedig a'r angen i weithredu dan faner Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd, fod yn berthnasol i'r corff parhaol newydd. Er hynny, wrth symud ymlaen rydym o'r farn y bydd yn ddefnyddiol sicrhau dealltwriaeth fras o'r problemau y mae'r AIDAC wedi'u hwynebu.

Mae'r gwersi ynglŷn ag ymgysylltu â rhanddeiliaid yn arbennig o bwysig. Mae'n debygol y bydd y corff newydd yn dod ar draws etholaeth eang y bydd ei dealltwriaeth o gyfraith amgylcheddol yn amrywio. Nodwyd mewn adborth bod ymgysylltu a thrafod yn effeithiol ar draws yr ystod amrywiol o randdeiliaid yn un o brif gyflawniadau'r AIDAC. Mae cyfleoedd i gael diweddariadau gan yr Aseswyr Interim, ac i ofyn cwestiynau iddynt neu fynegi pryderon wrthynt, wedi bod o fudd i randdeiliaid ac i'r AIDAC. O gofio'r teimladau cryf sydd gan bobl am faterion amgylcheddol, mae'r dull gweithredu hwn wedi esgor ar fanteision clir. Rydym yn credu'n gryf y dylai'r corff newydd adeiladu ar y cydberthnasau da yr ydym wedi gallu eu sefydlu.

**Mae yna ddisgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer y corff newydd ym maes llywodraethiant**

amgylcheddol i Gymru. Rydym yn croesawu'r rhain yn fawr a byddem wrth ein bodd o weld y corff yn gweithredu mewn modd tebyg i'w sefydliadau partner. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y bydd capasiti'r sefydliad yn fwy cyfyngedig o lawer. Y wers bwysicaf yr ydym ni wedi'i dysgu yw bod angen i rôl y sefydliad gyd-fynd â'r adnoddau y mae arno eu hangen i gyflawni'r rôl. Nid oes diben sefydlu corff sydd â phwerau cynhwysfawr os na chaiff ddigon o adnoddau i ddefnyddio'r pwerau hynny'n effeithiol.